**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Y Cyngor

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 2 Gorffennaf 2020 am 10.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P R Hood-Williams | H M Morris |
| P M Black | B Hopkins | D Phillips |
| J E Burtonshaw | D H Hopkins | C L Philpott |
| M C Child | L James | S Pritchard |
| J P Curtice | O G James | A Pugh |
| N J Davies | Y V Jardine | J A Raynor |
| A M Day | J W Jones | C Richards |
| P Downing | L R Jones | K M Roberts |
| C R Doyle | M H Jones | B J Rowlands |
| M Durke | P K Jones | M Sherwood |
| C R Evans | S M Jones | R V Smith |
| V M Evans | E J King | A H Stevens |
| W Evans | E T Kirchner | R C Stewart |
| E W Fitzgerald | M A Langstone | D G Sullivan |
| R Francis-Davies | A S Lewis | G J Tanner |
| S J Gallagher | M B Lewis | M Thomas |
| L S Gibbard | R D Lewis | L G Thomas |
| F M Gordon | W G Lewis | W G Thomas |
| K M Griffiths | C E Lloyd | L J Tyler-Lloyd |
| D W Helliwell | P Lloyd | G D Walker |
| T J Hennegan | I E Mann | L V Walton |
| C A Holley | P M Matthews | T M White |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| David Howes | Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): J A Hale, P N May a/ac P B Smith

---

**148. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gallai fod gan gynghorwyr a swyddogion ar eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen
"Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan yn unig. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd M C Child gysylltiad personol â Chofnod 154 "Newidiadau Dros Dro i Drefniadau Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion";

2) Datganodd y Cynghorydd L James gysylltiad personol â Chofnod Rhif 156 "Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ".

## 149. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 4 Mis Mehefin 2020.

## 150. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 151. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### 1) Sefydliad Roots Cymru

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Sefydliad Roots Cymru'n elusen dan arweiniad gwirfoddolwyr yn y Cocyd. Ei nod yw cefnogi pobl ifanc mewn gofal, y rheini sy'n gadael gofal, plant mewn angen ac oedolion sydd wedi gadael gofal gyda'r trawsnewidiad i fyw'n annibynnol.

Roedd yn falch iawn o gyhoeddi bod y Sefydliad Roots wedi derbyn Gwobr y Frenhines am Wasanaethau Gwirfoddol yn ddiweddar.

### 2) Cymdeithas Camlas Tawe'n derbyn Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol

Nododd yr Aelod Llywyddol mai grŵp o wirfoddolwyr o amgylch Camlas Tawe yng Nghwm Tawe isaf yw Cymdeithas Camlas Tawe. Maent yn ymroddedig i adfywio Camlas Tawe fel ased cymunedol ar gyfer chwaraeon actif ac fel

cyrchfan treftadaeth i ymwelwyr.Maent yn gymdeithas actif sy'n gweithio tuag at y nod hwnnw bob dydd Mawrth.

Mae'r gwaith adfywio a gweithgareddau amrywiol yn cynnwys:

- Atgyweirio glan y camlas mewn sawl safle rhwng Clydach a Threbannws;
- Casglu Sbwriel;
- Gweithredu rhaglen fywiog o wasanaeth llogi canwôd a chaiacau er budd y gymuned ehangach; a
- cheisio arian grant i gefnogi ei waith.

Ni fyddai unrhyw un o weithgareddau'r gymdeithas yn bosib heb gydweithrediad agos â Glandŵr Cymru. - "Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd Cymru". Mae'r ymddiriedolaeth yn rhoi caniatâd i waith gael ei wneud ar y gamlas, mae'n helpu i ddylunio a goruchwylio prosiectau, yn darparu llawer o'r deunyddiau a ddefnyddir wrth adfer ac yn cynnig cyngor a chefnogaeth arbenigol barhaus.

Roedd yn falch iawn o nodi bod Cymdeithas Camlas Tawe wedi'i hanrhydeddu â Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol, y wobr uchaf y gall grŵp gwirfoddol ei derbyn yn y DU. Nod Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol yw cydnabod gwaith rhagorol grwpiau gwirfoddol er budd eu cymunedau lleol.

Bydd cynrychiolwyr o Gymdeithas Camlas Tawe'n derbyn gwobr gan Louise Fleet, Arglwydd Raglaw EM Gorllewin Morgannwg yn ddiweddarach yr haf hwn, a bydd dau wirfoddolwr o'r gymdeithas yn mynd i arddwest ym Mhalas Buckingham ym mis Mai 2021, gydag eraill sydd wedi derbyn gwobr eleni.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Cynghorydd Gordon Walker (Cadeirydd Cymdeithas Camlas Tawe) neu e-bostiwch funding.swanseacanalsociety@talktalk.net

## 152. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### 1) Cefnogi busnes

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i swyddogion a phawb a oedd yn rhan o'r gwaith i gynorthwyo busnesau drwy eu helpu i ailagor, a hefyd am y grantiau a gynigiwyd.

### 2) Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i'r Heddlu a Swyddogion y cyngor am eu gwaith wrth fynd i'r afael â'r ymddygiad gwrthgymdeithasol a welwyd yn ddiweddar ym Mae Langland a SA1.

### 3) Prosiect Morol Doc Penfro - Prosiect y Fargen Ddinesig

Nododd Arweinydd y Cyngor fod Prosiect Morol Doc Penfro - Prosiect y Fargen Ddinesig wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Byddai hyn yn ychwanegu at ryddhau rhagor o arian maes o law.

**4) Morlyn Llanw Bae Abertawe**

Cynigiodd Arweinydd y Cyngor sicrwydd i bawb y bydd yr awdurdod yn gwneud popeth o fewn ei allu i ddarparu morlyn llanw ym Mae Abertawe a thechnoleg llanw ledled Cymru.

## 153. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 154. Newidiadau Dros Dro i Drefniadau Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion.

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol adroddiad gwybodaeth a oedd yn amlinellu'r trefniadau dros dro ar gyfer cryfhau uwch arweinyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

Dywedodd y byddai swydd Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion yn cael ei rhannu rhwng dwy rôl uwch arweinyddiaeth hyd at fis Tachwedd 2020, gan greu dau Bennaeth Gwasanaeth dros dro:

i) Pennaeth y Gwasanaethau Integredig;
ii) Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion (Anabledd Dysgu/Iechyd Meddwl/Darpariaeth Gwasanaethau a Diogelu).

Swydd ar y cyd rhwng y cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yw swydd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig ac mae'n atebol i'r ddau sefydliad. Bydd y rôl yn gyfrifol am yr holl swyddogaethau a gyflawnir drwy'r canolfannau integredig presennol ar gyfer pobl hŷn ac oedolion ag anabledd corfforol neu'r swyddogaethau sy'n gysylltiedig â nhw.

Bydd Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion (Anabledd Dysgu/Iechyd Meddwl/Darpariaeth Gwasanaethau a Diogelu) yn gyfrifol am ddiogelu, iechyd meddwl ac anableddau dysgu, darparu gwasanaethau mewnol a chomisiynu rhai allanol.

## 155. Newidiadau i'r Cyfansoddiad.

Cyflwynodd yr Aelod Llywyddol, y Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad gwybodaeth ar y cyd a oedd yn nodi'r diwygiadau a wnaed gan y Swyddog Monitro i Gyfansoddiad y Cyngor yn dilyn y newidiadau dros dro i strwythur y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

## 156. Cadeirydd Gwasanaethau Democrataidd.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddog Monitro adroddiad a oedd yn ceisio ethol Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn datgan bod rhaid i'r cyngor benodi Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a Chadeirydd. Rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor fod yn aelod o'r wrthblaid. Ni ddylai Arweinydd y Cyngor fod yn y pwyllgor hwn. Ni ddylai mwy nag un Aelod y Cabinet fod yn y pwyllgor hwn. Ni chaniateir aelodau cyfetholedig i fod yn y pwyllgor hwn.

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd L James fel Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.

## 157. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

Cyflwynwyd (9) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngŵŷs y Cyngor.

Dangosir y cwestiwn(cwestiynau) atodol hwnnw(hynny) yr oedd angen ymateb ysgrifenedig arno(arnynt) isod:

**Cwestiwn 1**

i) Gofynnodd y Cynghorydd J W Jones gwestiwn ar ran y Cynghorydd K M Griffiths:

*"Faint o arian a wariwyd gan Gyngor Abertawe ar dipio'n anghyfreithlon eleni? A fyddai'n rhatach caniatáu i fusnesau gael gwared ar sbwriel am ddim?*

ii) Gofynnodd y Cynghorydd J W Jones gwestiwn:

*"Rwy'n tybio bod 'mannau o bryder' o ran tipio anghyfreithlon. Beth rydyn ni'n ei wneud i atal tipio anghyfreithlon yn yr ardaloedd hyn, a beth yw'r ardaloedd hyn?*

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd ac Isadeiledd y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**Cwestiwn 4**

Gofynnodd y Cynghorydd P M Black gwestiwn:

*"Oes modd darparu cynllun gwariant ar gyfer y cyllid gwerth £95,000 a £112,000?"*

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**Cwestiwn 5**

Gofynnodd y Cynghorydd J W Jones gwestiwn:

*"Faint mae'r awdurdod yn ei dderbyn i ddarparu darpariaeth lleoliad brys mewn Cartrefi Seibiant?"*

Nododd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal i Oedolion ac Iechyd Cymunedol y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**'Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Cyflwynwyd tri (3) 'chwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' ar eu cyfer Rhan B.

## 158. Rhybudd o Gynnig: Mae Bywydau Du o Bwys.

Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorwyr L S Gibbard, R C Stewart, A S Lewis, D H Hopkins, C E Lloyd, J P Curtice, D W W Thomas, S Pritchard, M B Lewis, L V Walton, W G Lewis, M C Child, R Francis-Davies, A Pugh, E J King, E T Kirchner ac Y V Jardine

Cynigiwyd gan y Cynghorydd L S Gibbard ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd R C Stewart.

*"Mae Cyngor Abertawe'n sefyll mewn undod â chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Abertawe a gweddill y byd yn eu brwydr dros gyfiawnder yn wyneb hiliaeth yn ei holl ffurfiau.*

*Rydym yn cydnabod bod symbolau o orffennol trefedigol Prydain yn parhau i fod o'n cwmpas, ar ffurf cerfluniau, enwau strydoedd, adeiladau a'r celfyddydau. Mae gan rai o'r rhain gysylltiadau clir ag unigolion a oedd yn ymwneud â masnach caethweision ac ecsbloetio pobl o liw, ac maent yn atgof poenus i bobl BAME o'u gorchfygiad hanesyddol a'u hanghydraddoldeb parhaus.*

*Drwy weithio gyda'n cymunedau BAME, rydym yn ymrwymedig i archwilio daearyddiaeth a sefydliadau Abertawe i asesu a oes angen tynnu, diwygio neu newid y ffordd rydym yn arddangos unrhyw enwau neu ddelweddau. Nid er mwyn dileu ein hanes, ond i'r gwrthwyneb. Mae hyn yn ymwneud â dysgu o hanes a'i gyfleu mewn modd sensitif a pharchus. Rhaid gwneud gwaith i gyd-fynd â'r ymdrechion hyn i addysgu dinasyddion yn well ar hanes Abertawe, gan gynnwys ei rôl yn y fasnach caethweision, a'i le o fewn chwyldro diwydiannol y DU a gorffennol ymerodrol.*

*Rydym hefyd yn cydnabod bod caethwasiaeth fodern a mathau eraill o ecsbloetio yn dal i fod ledled y byd heddiw ac ar garreg ein drws ac mae angen i ni atgyfnerthu'n hymdrechion i fynd i'r afael â'r broblem ffiaidd hon sy'n effeithio ar bobl o bob cymuned.*

*Rydym hefyd yn ymrwymo ymhellach i ddathlu a nodi ystod ehangach o ddinasyddion Abertawe o'r gorffennol ar ffurf placiau glas, cerfluniau neu gofebau parhaol eraill, i gynnwys rhagor o fenywod, BAME, pobl anabl, LGBT a phobl dosbarth gweithiol.*

*Rydym yn falch o'n statws fel Dinas Noddfa ac yn cydnabod bod hon yn broses barhaus i sicrhau bod pawb, ni waeth beth yw eu cefndir, yn teimlo fel eu bod yn cael eu croesawu, eu parchu a'u cynnwys yn Abertawe. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chymunedau BAME i fynd i'r afael â'r materion ehangach sy'n ymwneud â chydraddoldeb, tegwch a chydlyniad cymdeithasol, a herio hiliaeth, ecsbloetio ac anoddefgarwch.*

*Felly, gofynnwn i'r cyngor gytuno i wneud y canlynol:*

*i) Gweithredu, lle y bo'n bosib, i gael gwared ar enwau neu eitemau cyhoeddus sydd â chysylltiadau â chaethwasiaeth neu ecsploetiaeth;*

*ii) Comisiynu adolygiad dyfnach o enwau lleoedd ac eitemau cyhoeddus a allai fod â chysylltiadau â chaethwasiaeth neu ecsploetiaeth;*

*iii) Datblygu adnoddau a gwybodaeth gywir am ein cysylltiadau â'r fasnach caethwasiaeth ac ecsbloetio fel rhan o stori hanes Abertawe i hysbysu ac addysgu preswylwyr ac ymwelwyr y ddinas yn well."*

Cynigiodd y Cynghorydd P M Black ddiwygiad i'r cynnig a chafodd ei dderbyn gan y Cynghorwyr L S Gibbard a R C Stewart. Daeth y cynnig diwygiedig canlynol yn gynnig annibynnol

*"Mae Cyngor Abertawe'n sefyll mewn undod â chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Abertawe a gweddill y byd yn eu brwydr dros gyfiawnder yn wyneb hiliaeth yn ei holl ffurfiau.*

*Rydym yn cydnabod bod symbolau o orffennol trefedigol Prydain yn parhau i fod o'n cwmpas, ar ffurf cerfluniau, enwau strydoedd, adeiladau a'r celfyddydau. Mae gan rai o'r rhain gysylltiadau clir ag unigolion a oedd yn ymwneud â masnach caethweision ac ecsbloetio pobl o liw, ac maent yn atgof poenus i bobl BAME o'u gorchfygiad hanesyddol a'u hanghydraddoldeb parhaus.*

*Drwy weithio gyda'n cymunedau BAME, rydym yn ymrwymedig i archwilio daearyddiaeth a sefydliadau Abertawe i asesu a oes angen tynnu, diwygio neu newid y ffordd rydym yn arddangos unrhyw enwau neu ddelweddau. Nid er mwyn dileu ein hanes, ond i'r gwrthwyneb. Mae hyn yn ymwneud â dysgu o hanes a'i gyfleu mewn modd sensitif a pharchus. Rhaid gwneud gwaith i gyd-fynd â'r ymdrechion hyn i addysgu dinasyddion yn well ar hanes Abertawe, gan gynnwys ei rôl yn y fasnach caethweision, a'i le o fewn chwyldro diwydiannol y DU a gorffennol ymerodrol.*

*Rydym hefyd yn cydnabod bod caethwasiaeth fodern a mathau eraill o ecsbloetio yn dal i fod ledled y byd heddiw ac ar ein carreg ein drws ac mae angen i ni atgyfnerthu'n hymdrechion i fynd i'r afael â'r broblem ffiaidd hon sy'n effeithio ar bobl o bob cymuned.*

*Rydym hefyd yn ymrwymo ymhellach i ddathlu a nodi ystod ehangach o ddinasyddion Abertawe o'r gorffennol ar ffurf placiau glas, cerfluniau neu gofebau*

*parhaol eraill, i gynnwys rhagor o fenywod, BAME, pobl anabl, LGBT a phobl dosbarth gweithiol.*

*Rydym yn falch o'n statws fel Dinas Noddfa ac yn cydnabod bod hon yn broses barhaus i sicrhau bod pawb, ni waeth beth yw eu cefndir, yn teimlo fel eu bod yn cael eu croesawu, eu parchu a'u cynnwys yn Abertawe. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chymunedau BAME i fynd i'r afael â'r materion ehangach sy'n ymwneud â chydraddoldeb, tegwch a chydlyniad cymdeithasol, a herio hiliaeth, ecsbloetio ac anoddefgarwch.*

*Felly, gofynnwn i'r cyngor gytuno i wneud y canlynol:*

*i)* *Comisiynu adolygiad dyfnach o enwau lleoedd ac eitemau cyhoeddus a allai fod â chysylltiadau â chaethwasiaeth neu ecsploetiaeth;*

*ii)* *Datblygu adnoddau a gwybodaeth gywir am ein cysylltiadau â'r fasnach caethwasiaeth ac ecsbloetio fel rhan o stori hanes Abertawe i hysbysu ac addysgu preswylwyr ac ymwelwyr y ddinas yn well;”*

iii) Yn amodol ar yr adolygiad y cyfeirir ato yn y cynnig hwn, *gweithredu, lle y bo'n bosib, i gael gwared ar enwau neu eitemau cyhoeddus sydd â chysylltiadau â chaethwasiaeth neu ecsploetiaeth;"*

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Hysbysiad o Gynnig a amlinellir uchod.

## 159. Rhybudd o Gynnig:Masnachu ar y Sul.

Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorwyr C A Holley, S M Jones, M H Jones, E W Fitzgerald, P M Black, J W Jones, D G Sullivan, A M Day, L James, C L Philpott, K M Griffiths, L G Thomas, G D Walker, P N May ac I E Mann

"Mae'r Llywodraeth ar hyn o bryd yn edrych ar ddadreoleiddio Cyfreithiau Masnachu ar y Sul ymhellach i ganiatáu i siopau mwy agor yn hirach ar ddydd Sul. Rydym yn galw ar y cyngor i gefnogi gweithwyr y sector manwerthu yn eu gwrthwynebiad i'r syniad hwn am y bydd yn effeithio ar eu hamser rhydd ac yn effeithio ar eu hiechyd a'u lles."

Cynigiodd y Cynghorydd M H Jones dynnu'r cynnig yn ôl am fod Llywodraeth y Ceidwadwyr wedi rhoi'r gorau i'w chynlluniau i orfodi newid deddfwriaethol.  Eiliwyd y cynnig i dynnu'r cynnig yn ôl gan y Cynghorydd C A Holley.

**Penderfynwyd** tynnu'r Rhybudd o Gynnig yn ôl.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.45 pm

**Cadeirydd**